
*Rhif:* ***16*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Y Porth Mawr**




**ACM16:Y Porth Mawr**



*Golygfa o'r Bae ac Ynys Dewi o Garn Llidi*



*Penmaendewi yn edrych ar draws Y Porth Mawr o Garn Rhosson*

**Disgrifiad Cryno**

Mae'r bae ychydig i'r de o Benmaendewi ar bwynt sydd bron â bod y mwyaf gorllewinol ar benrhyn prif dir Cymru. Mae'n fae llydan a thywodlyd gyda phentiroedd caregog bob ochr ac mae'n boblogaidd iawn ar gyfer syrffio, nofio a gweithgareddau traeth. Mae gan yr arfordir batrwm tirwedd hanesyddol yn enwedig i'r gogledd gydag anheddiad cyfyngedig iawn.

**Nodweddion Allweddol**

- Bae llydan sy'n wynebu'r gorllewin gyda thraeth tywodlyd sydd ar oledd ysgafn gyda childraethau tywodlyd i'r gogledd orllewin a'r de a chlogwyni danheddog a blaendraethau minfylchog, creigiog hwnt ac yma.
- Nodweddion hanesyddol, anheddiad gwledig gwasgarog a phatrwm tirwedd o hen gloddiau, yn enwedig o amgylch Carn Llidi.
- Glaswelltir a gweundir lled-naturiol ar ymyl yr arfordir.
- Carn Llidi a Phenmaendewi yn gefndir tua'r gogledd.
- Mae'r pentiroedd y naill ochr a'r llall yn fframio golygfeydd gwych at Ynys Dewi (un o olygfeydd eiconig y Parc) a'r Bishops and Clerks yn ogystal â golygfeydd ar draws y bae.
- Traeth poblogaidd gyda thonnau gweddol fawr ar gyfer syrffio a nofio a gweithgareddau traeth.
- Cysgodir y môr yn rhannol gan Ynys Dewi ac felly o fewn y bae mae'r dyfroedd yn gallu bod yn llonydd. Defnyddir y bae ar gyfer caiacio.
- Mae Llwybr yr Arfordir yn rhedeg o amgylch ymyl y bae gyda golygfeydd da.
- Mae yna faes golff bach tu ôl y twyni ac mae meysydd carafannau a meysydd pebyll yn gyfyngedig ond y amlwg.

**Nodweddion Ffisegol**

Mae'r bae tywodlyd llydan hwn sy'n wynebu'r gorllewin wedi ei dorri i mewn i ddilyniant o greigiau Cyngambriaidd i Ordoficaidd sy'n taro i'r gogledd ddwyrain-de. Dros y tyffiau folcanig Cyngambriaidd yn ne'r bae yn Ogofolchfa mae yna glymfeini wrth waelod dilyniant helaeth o dywodfaen/carreg silt Cambriaidd sy'n agored tua'r gogledd, a dros y tyffiau hyn ym mhenrhyn Trwynhwrddyn mae yna sialau Ordificaidd du sy' ffurfio Bae Pwlluog. Gan fwyaf, mae'r clogwyni <30m o amgylch y bae. Ar ben deheuol y bae mae cyfres o greigiau tanddwr yn arwain allan at ynysig greigiog fechan Carreggafeiliog (3m UDO). Mae ardaloedd o flaendraeth creigiog sy'n taro ar draws y tywod (40%) yn croesi ardaloedd rhynglanw tywodlyd o'r bae (60%). Tra bod ardaloedd creigiog yn agored i erydiad y gwynt a'r tonnau trwy sgrafelliad a symudiadau hydrolig, mae'r traeth yn amgylchedd dyddodol ble mae gwaddodion yn cael eu cludo trwy neidiant, tyniant a daliant. Mae yna beth datblygiad ar hyd y twyni a drifft net y glannau.

Mae llawr bas (<30m) y môr o raean tywodlyd, ar draws y bae, ar oledd ysgafn (<1°) tua'r gorllewin uwchben y dilyniant Cyngambriaidd i Ordoficaidd a ddominyddir gan dywodfaen a sialau. Mae'r môr yn agored i bwysau uchel gan y gwynt a'r tonnau, gyda pherygl o lanwau terfol. Mae'r traeth sydd ar oledd ysgafn ac yn wynebu'r gorllewin yn adnabyddus am ei donnau gweddol fawr. Mae cerhyntau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd a'r de ar ymyl y bae. Amrediad y llanw yw ~4.1m.

Daw'r môr a'r ardaloedd rhynglanw o dan ACA Sir Benfro Forol. Dynodwyd y clogwyni, gweundir a glaswelltir arfordirol cysylltiedig a'r traethau fel SoDdGA Arfordir Penrhyn Tyddewi ac maen nhw hefyd yn Ardal sy'n Bwysig ar gyfer Adar fel a ddiffiniwyd gan yr RSPB.

Mae'r arfordir yn gyfuniad o weundir a glaswelltir lled-naturiol ar hyd copa'r clogwyni gyda thwyni creiriol tu ôl prif draeth, sy'n cael ei ddefnyddio'n rhannol erbyn hyn fel maes golff bach. Yn bennaf, mae'r gefnfro yn gyfuniad o borfa a thir pori garw, gyda pheth defnydd âr.

**Dylanwad diwylliannol**

Mae gan y bae gysylltiad hanesyddol hir gydag Iwerddon. Mae'r enw 'Porth Mawr' yn deillio o'i ddefnydd fel man ble byddai'r cychod yn gadael ac yn cyrraedd.

Efallai bod Caer Rufeinig bosib a chymuned Gristnogol gynnar, rhagflaenydd Tyddewi, wedi eu

cuddio yn y system twyni. Ers meitin, Porth Mawr yw'r safle mwyaf poblogaidd ar gyfer porthladd Rhufeinig Menapia. Mae'n hollol bosib fod y system twyni ar Y Tywyn ar arfordir y Porth Mawr yn cuddio porthladd Rufeinig yn ogystal â'r gymuned Gristnogol gynnar a ffurfiwyd yn wreiddiol gan Ddewi Sant cyn ei symud tua'r tir i ddyffryn Alun.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE071 (caer bentir): cymuned: Tyddewi (yn rhannol yn SCA15)
- PE093 (system caeau): cymuned: Tyddewi (yn rhannol yn SCA15)
- PE012 (capel Sant Padrig ): cymuned: Tyddewi

Mae'r ardal hon yn rhannol o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi.

Peintiodd yr artist Graham Sutherland ddarluniau o'r cildraethau sy'n arwain at Benmaendewi.

Roedd y traeth yn bwynt gadael traddodiadol ar gyfer Iwerddon ac mae yna gysylltiad gyda chwlt San Padrig. Dim ond un llongddrylliad sydd wedi ei gofnodi yn yr ardal - sef Morning Star.

Cyfyngwyd yr aneddiad i ychydig ffermydd, bythynnod, tai a byngalos ynysig o'r 20fed ganrif. Mae caiacio, syrffio, hwylfyrddio a physgota o'r môr oll yn weithgaredd poblogaidd oddi ar y Traeth Mawr ac maen nhw hefyd yn pysgota oddi ar y traeth ym Mhorthmelgan. Caiff dingis hwylio a jet-skis eu lansio o'r traeth hefyd. Mae rhai teithiau cwch bywyd gwyllt hefyd yn lansio o'r traeth i ymweld â Gwarchodfa Adar Ynys Dewi gerllaw.

Mae yna lithrfa yng nghanol y traeth hir hwn sy'n boblogaidd ar gyfer gweithgareddau cyffredinol ar y traeth. Mae yna faes parcio tu ôl i'r traeth sy'n cael ei orboblogi dros yr haf. Mae yna sawl maes carafannau a maes pebyll o amgylch yr ardal hon.

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhedeg ar hyd copa ymyl y clogwyni a'r twyni o amgylch y bae.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys dal cimwch a chrancod mewn potiau a'r potensial ar gyfer mân-dreillio estyllod. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Mae'r bae ar raddfa fawr ond mae Penmaendewi yn amgaead cryf yn ogystal â chefndir Carn Llidi i'r gogledd a'r clogwyni sy'n rhedeg i Benrhyn Sant Ioan ynghyd ag Ynys Dewi i'r de. Mae'r tirffurfiadau hyn yn ffocysu golygfeydd allan at y môr tuag at greigiau'r Bishops and Clerks a'r gorwel tu hwnt, ac yn rhoi diddordeb ac amrywiaeth i'r olygfa. Mae gweadau garw'r clogwyni a'r creigiau yn cyferbynnu gydag ehangder mawr y traeth llyfn sydd ar oledd ysgafn. Mae'r twyni'n gefndir is i'r dwyrain gyda moresg. Mae'r bae yn agored i'r gwyntoedd gorllewinol er bod y gwyntoedd de-orllewinol yn cael eu haddasu gan Ynys Dewi. Mae'r tonnau'n taro'r traeth yn galed ac felly mae'n amgylchedd cyffrous ac ysgogol. Oherwydd hyn, a'r traeth llydan, mae'n denu teuluoedd a syrffwyr fel ei gilydd ac mae'n ardal brysur a bywiog iawn yn ystod y dydd yn y prif dymor [ac weithiau gyda'r hwyr adeg digwyddiadau] ac mae hyn yn gostwng llonyddwch yr ardal, er bod y llonyddwch yn cynyddu tua'r de a'r gorllewin. Mae'r bae'n cynnig golygfeydd godidog i mewn ac allan. Mae'r elfennau sy'n difrïo'n cynnwys ychydig o dai a byngalos ynysig o ganol yr 20fed ganrif mewn lleoliadau amlwg, a'r meysydd carafannau a phebyll.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden forol a hamdden ar y traeth gan gynnwys syrffio, at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr arfordir a'r traeth sydd, i raddau helaeth, heb eu difetha, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'i diddordeb hanesyddol cenedlaethol a nodweddion sy'n gysylltiedig â Thyddewi fel y 'porth mawr'.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog, yn fwy yn y bae. Rhywfaint o ddrifft gwaddodion net ar hyd y glannau. Mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd ym Mhenmaendewi-Y Porth Mawr a dal y llinell/encilio yn y Bae yn ddetholus.

Fel pot mêl, mae'n rhaid i'r cyfleusterau a'r traeth ymdopi â nifer fawr o ymwelwyr.

Mae cerddwyr yn erydu Llwybr yr Arfordir a llwybrau troed eraill.

Mae meysydd parcio'n gorlifo mewn caeau - effaith weledol.

Tagfeydd a threulio heol fynediad leol, gul.

Mae modd gweld meysydd carafannau a phebyll ac mae angen cadw rheolaeth lem.

Trawsnewid bythynnod a ffermydd yn gartrefi gwyliau.

Mae yna fwy a mwy o graffu ar arfordira ar gyfer ei effaith ar gynefinoedd.

Rheoli tir - dwysau'r defnydd o gaeau yn gallu gostwng bioamrywiaeth ac effeithio ar gymeriad y dirwedd.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| Rhinweddau arbennig | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr Arfordir | | ■ | | | ■ | ■ | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | ■ | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | ■ | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | ■ | ■ | | | ■ | |
| Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | ■ | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | ■ | | |
| Mynediad i'r Parc | ■ | | | | | ■ | |
| Lle i Anadlu | | ■ | | | | | |

**Allwedd**: ■ Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig

## Sensitifeddau allweddol

Arfordir serth, danheddus gyda chlogwyni a childraethau sy'n ffurfio ymyl arfordirol naturiol.

Mae natur y pentiroedd y naill ochr a'r llall yn fframio golygfeydd allan at y môr.

Y golygfeydd heb eu difetha allan at y môr ac ar draws y bae at Ynys Dewi.

Mae cymeriad syml, agored y bae tywodlyd yn ffocysu golygfeydd ar ei draws ac mae hyn yn golygu bod unrhyw ddatblygiad yn amlwg iawn.

Glaswelltir/gweundir lled-naturiol ar y clogwyni.

Cymeriad bugeiliol gwledig y gefnfro a'r bryniau sy'n gefndir.

Cymeriad hanesyddol yr hen ffermydd a ffiniau/patrymau'r caeau.

Arwyddocâd hanesyddol y nodweddion ar Benmaendewi a'r bae.

| |
|---|
| Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dderbynnydd sensitif.<br>Presenoldeb ambell anheddiad/strwythur o'r 20fed ganrif.<br>Presenoldeb maes parcio, gorsaf bad achub a chyfleusterau.<br>Presenoldeb meysydd carafannau a phebyll.<br>Presenoldeb y maes golff. |